# Cofnodion y Bwrdd

Hybu Cig Cymru
12/03/2026 10:00GMT
@ Swyddfa, Aberystwyth

## Presenoldeb

**Yn Bresennol:**

Aelodau: Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans OBE (o bell), Dewi Hughes, Emlyn Roberts (o bell), Paul Savage, Cath Smith, John T Davies, Mike Humphreys, Caroline Sanger-Davies

Trwy wahoddiad: Karla Price (Llywodraeth Cymru (o bell).

Y Swyddogion Gweithredol: Jose Peralta, Meilyr Ceredig, Gareth Jones, Pip Gill, John Richards (o bell), Jo Horder.

Ar gyfer Eitem 4: Owain Edwards (Llywodraeth Cymru) (o bell), Chris Moore (Llywodraeth Cymru) (o bell).

1. Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Hwn oedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd a drefnwyd gan ddefnyddio OnBoard, sef rhaglen reoli'r Bwrdd, a diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau a'r Pwyllgor Gwaith am yr hyn a wnaed i sefydlu'r system a mynychu'r hyfforddiant.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

- 21 Ionawr - Brecwast UAC yng Nghaerdydd gyda'r Prif Swyddog Gweithredol
- 27 Ionawr - Dathliadau Pen-blwydd CFfI yn 90 oed, Y Senedd, Caerdydd
- 4 Chwefror - Cinio Ffarwel Llywydd NFU Cymru, Caerdydd
- 9 Chwefror - Proses ddidoli ar gyfer ceisiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol
- 12 Chwefror – Cyfarfod diweddaru'r Bwrdd
- 25 Chwefror - Cynhadledd NFU, Birmingham, gan gynnwys cyfarfod â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Gweithredol y Byrddau Ardoll ar y cyd
- 26/27 Chwefror - Cyfweliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol
- 4 Mawrth - Cinio cyn-gynhadledd y CLA
- 5 Mawrth - Cynhadledd y CLA; cadeirio sesiwn Bwyd a Ffermio

Nodwyd bod cynigion penodi wedi'u hanfon at bedwar Cyfarwyddwr Anweithredol newydd. Ar ôl eu derbyn yn ôl, bydd y penodiadau newydd yn cael eu cyhoeddi i'r Bwrdd a gwneir cyhoeddiad cyhoeddus cyn diwedd mis Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru am eu cymorth gyda'r broses recriwtio.

2. Datganiad o Fuddiant

Datganodd Jack Evershed fod ei fab wedi cael ei gontractio i wneud gwaith i IBERS ar brosiect Sylfaenu HCC.
Nodwyd bod Mike Humphreys a'i gydweithiwr, David Kopecky, wedi cyflwyno papur i'r *Journal of Food and Energy Security*, gan adrodd am y tro cyntaf ar y genynnau gwrthsefyll sychder effeithiol sy'n bresennol yn yr amrywiad glaswellt AberRoot.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan Vicki Spencer-Davies, Gareth Davies, Russ Thomas, Jason Craig a Maria Richards. Nodwyd mai dim ond rhan gyntaf y cyfarfod yr oedd Hugh Hesketh Evans ac Emlyn Roberts yn gallu ei fynychu.

## 4. Diweddariad Cynnydd Amryw-Rywogaeth Cymru (EIDCymru)

Croesawodd y Cadeirydd Owain Edwards a Chris Moore i'r cyfarfod. Darparwyd diweddariad ar gynnydd y prosiect hyd yn hyn, gan gynnwys:

- Mae data cynhyrchu'r System Olrhain Gwartheg (CTS) bellach yn mynd i amgylchedd Amlrywogaeth Cymru (MSW) yn ddyddiol. Bydd mewnbwn data ar CTS yn ymddangos yn MSW y diwrnod canlynol. Mae MSW hefyd yn dal data cynhyrchu CTS ar gyfer Cymru a Lloegr yn ôl i ddechrau CTS. Roedd y cam hwn bellach wedi'i gwblhau.
- Roedd deialog gyda'r lladd-dai mwyaf yn parhau ac roedd y gwaith o adeiladu lladd-dai yn mynd rhagddo.
- Roedd trafodaethau wedi dechrau gyda rhai lladd-dai bach sy'n defnyddio CTS ar-lein. Roeddent wedi dechrau ei brofi'n llwyddiannus. Pan fydd ateb yn fwy terfynol, bydd deialog yn dechrau gyda lladd-dai bach eraill.
- Cytunwyd ar ffordd o rannu cofnodion marwolaethau mewn lladd-dai yng Nghymru yn ôl i CTS, gyda gwaith ar y gweill i adeiladu rhyngwyneb trwy wasanaethau gwe CTS.
- Roedd deialog gyda darparwyr meddalwedd cofnodi da byw wedi bod yn digwydd.
- Anfonir cyfathrebiad at bawb sy'n cadw da byw yn ddiweddarach ym mis Mawrth i'w hysbysu am yr hyn sy'n digwydd gyda MSW yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a beth mae hyn yn ei olygu iddynt.
- Parhaodd y tîm i weithio yn unol â'r dyddiadau cynllun gwreiddiol.

Cafwyd ymholiad ynghylch cyfathrebu â thîm EIDCymru a sut maent yn cael gwybod am ddatblygiadau ac yn gallu cymryd rhan ynddynt. Gofynnir am farn arweinwyr EIDCymru i ganfod pa wybodaeth sydd ei hangen.
**Gweithredu: Y Prif Weithredwr / Llywodraeth Cymru**
Roedd gwaith wedi mynd rhagddo ar ddrafft Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) ar gyfer EIDCymru. Mae angen trafodaeth bellach am hyn. Cytunwyd ar gyllideb ar gyfer EIDCymru.
Trafodwyd y strategaeth gyfathrebu a'r disgwyliadau, y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i'w chyflawni. Datblygwyd drafft a chaiff ei rannu gyda'r Bwrdd ar ôl ei gwblhau. Cytunwyd y byddai'n fuddiol i HCC gael golwg gynnar ar y drafft, a chael cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm y prosiect wrth symud ymlaen.
**Gweithredu: Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau / Llywodraeth Cymru**
Cafwyd ymholiad ynghylch a oedd swyddogion iechyd anifeiliaid awdurdodau lleol yn cael gwybod am MSW. Er bod tîm y prosiect yn cyfarfod bob deufis gydag awdurdodau lleol, a bod cynrychiolwyr hefyd yn eistedd ar grŵp LIDAG, ni wyddys a yw'r wybodaeth yn llifo i'r swyddogion hynny sy'n ymweld â ffermydd yn rheolaidd er mwyn eu cadw'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Bydd tîm y prosiect yn ymchwilio i hyn.
**Gweithredu: Llywodraeth Cymru**
Darparwyd diweddariad ar yr eitem Materion yn Codi i egluro'r sefyllfa gyda chyflenwyr tagiau gwartheg i sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth gywir i gwsmeriaid. Bydd diweddariad yn cael ei gynnwys yn llyfryn diweddaru'r Gwanwyn ynghylch BVD mewn gwartheg. Ni fydd unrhyw gyfathrebu ffurfiol yn digwydd nes bod y sefyllfa ynghylch diffodd CTS a'r system CAD yn hysbys. Bydd y tîm prosiect yn dal i ddiweddaru'r Bwrdd ynglŷn â hyn.
Diolchodd y Bwrdd i dîm y prosiect am y diweddariad a'r cynnydd a wnaed hyd yma.
Yn dilyn y diweddariad, trafodwyd y dewis am friffio ar lefel uwch ac ehangach ynghylch y prosiect MSW. Bydd hyn yn cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod Llywodraethiant nesaf.
**Gweithredu: Y Prif Weithredwr**

## 5. I gymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd

### 5.1. Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2026

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

### 5.2. Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2026

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

## 6. Materion yn codi

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir. Cafodd yr holl faterion sydd heb eu penderfynu eu cynnwys ar yr agenda.

## 7. Cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2025 – 2026

Cyflwynodd yr Arweinydd Ymgysylltu â Brand yr uchod, gan roi crynodeb o'r dull strategol, y strategaeth greadigol, penawdau'r ymgyrch a'r sianeli a ddefnyddiwyd.
Llwyddodd yr ymgyrch integredig i gael cyrhaeddiad, ymgysylltiad a gwelededd cryf ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI. Cysylltodd yr ymgyrch 'Lleol Naturiol' â chwsmeriaid posibl ledled Cymru, gan gyrraedd 1.5 miliwn o bobl yn ystod y cyfnod o dri mis. Cyflawnodd gweithgaredd digidol ganlyniadau rhagorol, gyda gweithgaredd ar-lein yn unig yn darparu dros 5.5 miliwn o gyfleoedd i weld yr ymgyrch. Sicrhaodd cyfuniad o hysbysebu digidol wedi'i dargedu fod cynnwys hyrwyddo yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r defnyddwyr a oedd fwyaf tebygol o brynu Cig Eidion Cymru, gan wneud y mwyaf o effeithlonrwydd a gwerth yr ymgyrch. Cafodd syniadau defnyddwyr o Gig Eidion Cymru PGI eu cadw i raddau helaeth.
Nododd y Bwrdd y cyflwyniad a llongyfarchodd HCC ar yr ymgyrch.

## 8. Corfforaethol

### 8.1. Cynllun Gweithredol drafft 2026-27

Cyflwynwyd yr uchod gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cynhyrchwyr a Phroseswyr. Mae'r Cynllun yn nodi cyfeiriad strategol HCC ar gyfer y pedair blynedd nesaf i gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yng Ngweledigaeth HCC ar gyfer y Diwydiant Cig Coch yng Nghymru a chyflawni'r canlyniadau a ddiffinnir yng Nghynllun Busnes drafft y sefydliad.
Cafwyd trafodaeth ar y ddarpariaeth arfaethedig a'r dangosyddion perfformiad allweddol posibl.
Yn gyffredinol, roedd y Bwrdd yn fodlon ar y Cynllun drafft. Bydd cymeradwyaeth ffurfiol o'r Cynllun terfynol yn cael ei hargymell yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2026, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

### 8.2. Rhagolwg Cyllideb 2026-27

Cafodd yr uchod ei gyflwyno gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol. Y prif bwyntiau allweddol oedd:

- Rhagwelir y bydd cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn yn £5.2m, cynnydd ar y flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Eneteg Ddefaid dros dair blynedd (£1m y flwyddyn), a'r cynnydd yn y gyfradd ardoll a gymeradwywyd ar gyfer mis Ebrill 2026.
- Mae’r pwysau allweddol o ran costau yn cynnwys cynnydd mewn prisiau ynni, cynnydd mewn Yswiriant Gwladol a chwyddiant cyflogau, a buddsoddiadau angenrheidiol mewn diogelwch digidol a seiber.
- Mae gwaith yn parhau i ymgorffori mesurau effeithlonrwydd drwy adolygiadau, gwelliannau caffael, a datblygu strategaethau hirdymor ar gyfer ystadau, seilwaith digidol, a chymorth TG.

- Mae llif arian yn parhau i gael ei reoli'n agos gyda rhagolygon gwell, gan adlewyrchu risgiau ynghylch amseriad ardoll, rhwymedigaethau pensiwn a Chyllid a Thollau EF, incwm ailwladoli , a chyflwyno rhaglenni wedi eu hariannu gan grantiau.
- Bydd cronfeydd arian parod hirdymor yn cael eu rheoli o fewn y trothwy Dogfen Fframwaith 10%, yn amodol ar ymgysylltu â Llywodraeth Cymru pan fo angen.
- Mae'r rhagolwg ar gyfer 2026–27 yn rhoi sefyllfa o fantoli'r cyfrifon gyda chynlluniau wrth gefn wedi'u nodi i liniaru unrhyw ddiffyg incwm posibl.

Trafodwyd y sefyllfa debygol ynghylch y trothwy cronfeydd arian parod o 10%. Sicrhawyd y Bwrdd bod y Tîm Gweithredol wrthi'n rheoli'r sefyllfa hon drwy ragolygon am well llif arian parod hyd at 31 Mawrth 2026, monitro cyson o dderbyniadau ardoll a rhwymedigaethau sy'n sensitif i amseriad, ac ymgysylltiad parhaus â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch sefyllfaoedd posibl arian parod ar ddiwedd y flwyddyn
At ei gilydd, mae Rhagolwg y Gyllideb ar gyfer 2026–27 yn cyflwyno cynllun ariannol cytbwys sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol a nodir yng Nghynllun Busnes 2026–30.
Nododd y Bwrdd yr uchod a chymeradwyodd ragolwg y gyllideb ar gyfer 2026-27.
Diolchodd y Bwrdd i'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol am ddarparu adroddiad cadarn a chynhwysfawr.

### 8.3. Adolygiad o Lywodraethiant

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol drosolwg o dair dogfen lywodraethiant a gyflwynwyd i'r Bwrdd:
8.3.1. Cylch Gorchwyl y Bwrdd
8.3.2. Rheolau Sefydlog y Bwrdd
8.3.3. Rhestr o Faterion a Gedwir yn Ôl i'r Bwrdd
Datblygwyd y dogfennau hyn yn dilyn yr adolygiad o lywodraethiant sefydliadol, a gynhaliwyd i sicrhau ymgyfuniad llawn â gofynion statudol, fframweithiau Llywodraeth Cymru, ac arfer gorau cydnabyddedig yn llywodraethiant y sector cyhoeddus.
Nodwyd y dogfennau gan y Bwrdd a chawsant eu cymeradwyo yn amodol ar yr hyn a ganlyn:

- Eglurhad o ddiffiniadau Ysgrifennydd y Cwmni/Ysgrifennydd y Bwrdd yn y Cylch Gorchwyl

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

## 9. Adroddiadau HCC

### 9.1. Adroddiad Darparu

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir a chafodd ei nodi gan y Bwrdd.

## 10. Rhannu Gwybodaeth

### 10.1. Gweledigaeth 2030

Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau Nodwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb i gyfleu'r Weledigaeth i randdeiliaid.

### 10.2. Cynllun Busnes 2026-30

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol y cafwyd cadarnhad bod Cynllun Busnes HCC 2026-30 wedi'i gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.
Cymerwyd bod y Cynllun yn gywir a chafodd ei nodi gan y Bwrdd.

### 10.3. Model Hunanasesu (SAM) Llywodraeth Cymru

Cyflwynwyd yr uchod gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.
Roedd Model Hunanasesu Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau i dimau partneriaeth a chyrff cyhoeddus eu defnyddio o'r ddesg fel 'archwiliad iechyd' o'r corff ac i adolygu'r berthynas â Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd yr asesiad ar y cyd â thîm y bartneriaeth. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn ar y cyfan. Cyflwynwyd yr asesiad wedi'i gwblhau i Dîm Arweinyddiaeth a Llywodraethiant Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chaiff ei ystyried gan Grŵp Cyfeirio'r Cyrff Cyhoeddus fel rhan o drefniadau goruchwylio ehangach.
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.
Nodwyd bod cyfeiriad o fewn y Cytundeb Fframwaith at Gôd Llywodraethiant Corfforaethol y DG sy'n datgan mai'r arfer gorau yw gwerthuso'r Bwrdd yn flynyddol, gydag asesiad annibynnol yn cael ei gynnal bob tair blynedd. Ystyrir y ffordd orau o gynnal asesiadau ystyrlon ar sail Gwerth am Arian.
**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

## 11. Adolygu a Chymeradwyo Dogfennau Allweddol

Cyflwynwyd yr uchod gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol. Roedd angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar chwe pholisi cyfundrefnol. Mae'r dogfennau hyn wedi'u cynhyrchu neu eu diweddaru fel rhan o gylch adolygu llywodraethiant a rhaglen cydymffurfio deddfwriaethol HCC.

### 11.1. Polisi Teithio a Chynhaliaeth

Roedd y polisi wedi cael ei adnewyddu yn unol â deddfwriaeth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan roi canllawiau cliriach i staff.
Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

### 11.2. Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad HCC i ddarparu gwasanaethau a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg a chafodd ei ddiweddaru, gan gydweithio'n agos â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
Cymeradwywyd y Cynllun gan y Bwrdd.

### 11.3. Côd Ymddygiad Staff

Mae'r polisi yn nodi côd ymddygiad HCC ar gyfer staff neu'r rhai sy'n gweithio i HCC. Mae'r polisi yn disodli'r Polisi Ymddygiad Busnes.
Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

### 11.4. Polisi Gweithio Hyblyg

Diweddarwyd y polisi i adlewyrchu diwygiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy 'r Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth (Gweithio Hyblyg) 2023 a'r Rheoliadau Gweithio Hyblyg (Gwelliant) 2023.
Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd

### 11.5. Polisi Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth a Rhannu Gofal Rhiant, gan gynnwys Absenoldeb a Thâl Mabwysiadu

Diwygiwyd y polisi i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar i'r hawl i fabwysiadu ac i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.
Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

### 11.6. Polisi Absenoldeb Rhiant

Diwygiwyd y polisi i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar ac i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.
Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn amodol ar eglurhad o baragraffau 2.2 a 2.3.
**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

## 12. Pwyllgorau HCC

### 12.1. Pwyllgor Archwilio a Risg

#### 12.1.1. I fabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025

Mabwysiadwyd y cofnodion gan y Bwrdd.

#### 12.1.2. I dderbyn adroddiad llafar am y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Chwefror 2026

Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad llafar a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol:

- Offer Hunanasesu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Asiantaeth Archwiliad Mewnol y Llywodraeth (GIAA) – cafodd ei gwblhau gan y Pwyllgor, ac yna cwblhawyd nifer o gamau gweithredu ar feysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd camau gweithredu pellach i wella llywodraethiant, sicrwydd ac effeithiolrwydd y pwyllgor yn mynd rhagddynt. Un cam gweithredu oedd bod y Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr heb swyddogion HCC yn bresennol, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar ddiwedd cyfarfod y Pwyllgor. Ni chodwyd dim byd o bwys.
- Ymgynghoriad Ffioedd Archwilwyr 2026-27 - yn dilyn yr ymgynghoriad, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi llythyr generig yn egluro'r cynnydd a'r rhesymau drosto. Gostyngwyd y cynnydd yng nghyfradd y ffi o 5.5% i 5.3% (cyfartaledd pwysol). Teimlai'r Pwyllgor nad oedd hyn yn adlewyrchu'r costau i sefydliadau bach. Nodwyd bod Cadeirydd y Bwrdd wedi codi'r mater yng Nghyfarfod Cadeiryddion Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr a threfnwyd bod y Cyfarwyddwr yn trafod y mater gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd hyn yn cael ei ddilyn i fyny yn y cyfarfod nesaf.
- Cynnydd Archwiliad Mewnol - Cyflwynir adroddiad ar yr archwiliad Caffael i'r Pwyllgor ym mis Mehefin.
- Dilyniant archwiliad mewnol - gwnaed cynnydd da wrth weithredu argymhellion archwilio blaenorol.
- Cynllun Gweithredu
- Llywodraethiant Gwybodaeth – Derbyniwyd ymateb ffurfiol

##### 12.1.2.1. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cafodd y Cylch Gorchwyl ei
Cafodd y Cylch Gorchwyl ei gadarnhau gan y Bwrdd.

##### 12.1.2.2. Polisi Diogelu Data

Diweddarwyd y polisi yn dilyn yr adolygiad Archwilio Mewnol yn ddiweddar i adlewyrchu holl egwyddorion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol **(**GDPR) y DG a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 26 Chwefror 2026.

Cafodd y polisi ei gadarnhau gan y Bwrdd.

## 13. Unrhyw Fater Arall

Cafodd aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd i fod yn ofalus yn ystod y cyfnod cyn etholiad y Senedd.